

DOLEN Y TAB 79

29–30 Hydref 2021

11 Bore Sul 31 Hydref

Yng ngofal Lyn a Mike West a'r teulu ac Eimir Siôn gyda Sian Elin wrth yr organ.

Cofiwch gofrestru erbyn 6yh nos Wener os am fynychu'r cwrdd!

YR OEDFAON NESAF

TACHWEDD

- 7 Yng ngofal Ceri Anwen a Geraint Rees.
- 14 Yng ngofal y Parchedig Aled Edwards, gyda Huw a Bethan Herbert.

Hefyd ddydd Sul 31 Hydref

12:00 Oedfa Radio Cymru: Sul Adferiad – Dan ofal Wynford Ellis Owen a chyfeillion.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg
John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.00 – 20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Emyr i Gymru 2021
Mewn rhaglen arbennig, Huw Edwards fydd yn datgelu canlyniad y bleidlais *Emyr i Gymru 2021* mewn digwyddiad o Neuadd Dewi Sant.

E-fwletin Cristnogaeth21
Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Capel y Tabernacl Cyf.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 9 Tachwedd. Cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws, (gehpengwern@yahoo.co.uk) neu 01443 225205 os ydych am godi unrhyw fater – rhwch wybod erbyn erbyn nos Lun 8 Tachwedd.



CYMORTH CRISTNOGOL
YN YMUNO MEWN

DIWRNOD O
WEITHREDU
BYD EANG

CAERDYDD - 6 TACHWEDD

11:00 - CYFARFOD GWEDDI

Eglwys Dewi Sant
St Andrew's Crescent, Caerdydd, CF10 3DD
Ar gyfer gweddi a pharatoi

12:00 - YMGYNULL NEUADD Y DDINAS

Ymunwch gyda gorymdeithwyr eraill a cherdded tuag at y Senedd

RALI YN Y SENEDD

Anfonwch Eich Syniadau Atom

Mae'n anodd credu bod dros un mlynedd ar ddeg wedi mynd heibio ers agor y Ganolfan ym mis Medi 2010. Ond mae mwy nag amser yn unig wedi gwibio heibio ers agor yr adeilad gwych, aml-bwrpas ac aml-gyfyngol hwn am y tro cyntaf. Efallai mai'r newid mwyaf yw'r un ym maes technoleg ddigidol. Pwy fyddai wedi dychmygu bryd hynny y byddai'r mwyafrif llethol o aelodau'r Tabernacl, ynghyd â phlant yr Ysgol Sul, bellach yn cario cyfrifiadur pwerus gyda nhw i bob man, a bod modd ei ddefnyddio i gyfathrebu â phob rhan o'r byd?

Hyn yn rhannol sydd wedi ysgogi'r Bwrdd i wahodd grŵp o aelodau'r Tabernacl i gwrdd i asesu'r offer a'r gwasanaethau digidol y bydd arnom eu hangen dros y blynyddoedd nesaf. Eisoed mae'r Bwrdd wedi cytuno mewn egwyddor i fod yn eglwys hybrid i alluogi'r rhai na fedrant, am wahanol resymau, fynychu cwrdd yn rheolaidd, i ymuno'n rhithiol mewn oedfaon ar fore Sul neu'n ddiweddarach yn yr wythnos. Ond nid awgrymiadau i uwchraddio offer yn unig sydd ei angen eu gwyntyllu – dylid cwestiynu hefyd pa gyfarpar a gwasanaethau digidol a ddarperir ar hyn o bryd y gellid eu hepgor.

Mae'r Bwrdd yn estyn croeso i unrhyw un sydd am fynegi barn ar y materion hyn i gysylltu naill ai â'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd dros y pythefnos nesaf fel y gellir cyflwyno'r syniadau hyn i'r Gweithgor.



Pigion o'r Wasg

Holi Tecwyn Ifan

Yr erthygl olaf i mi ei darllen yn rhifyn Hydref o *Barn* oedd cyfweiliad Hefin Wyn gyda Tecwyn Ifan ar achlysur rhyddhau ei CD diweddaraf, *Santa Roja*. Ar yr olwg gyntaf, 'dyw trafod cynnwys CD ddim y lle mwyaf amlwg i droi iddo am bigion i'w rhannu gyda darllenwyr y *Ddolen*. Ond wedi brasgamu'n frysiog drwy'r testun a sylwi mai *Tŷ Cwrdd* yw teitl un o'r caneuon a *Hon yw'r Duw* yn un arall – testunau nad ydynt yn gwbl annisgwyl o gofio bod Tecwyn Ifan yn fab y Mans ac iddo dreulio'i yrfa yn y weinidogaeth – tybiais y gallai fod rhywbeth o ddi-ddordeb yma.

Er mai fel un sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn naear sir Benfro y byddwn yn meddwl am Tecwyn Ifan yn bennaf, mae e wedi treulio'r pymtheg mlynedd ddiwethaf yn byw yn Nyffryn Conwy lle bu'n ysgogydd cymunedol ar ran y Bedyddwyr yn ardal Blaenau Ffestiniog. Er iddo 'ymdeol' rai blynyddoedd yn ôl, mae bellach yn dal swydd ran amser yn cynorthwyo capeli'r Bedyddwyr yn siroedd Dinbych, Fflint a Meirionnydd. Ond tristwch pethau yw ei fod, mewn cyfnod byr, wedi cael ei hun yn cynghori ynghylch cau dwsin o'r pum capel ar hugain o fewn Cymanfa'r Bedyddwyr. O'r un ar ddeg o gapeli sy'n weddill, mae llai na 10 aelod mewn pump ohonynt a dim ond saith aelod sydd yn y capel lle mae Tecwyn Ifan ei hun yn aelod – ac mae hwnnw hefyd ar fin cau. Er mor gyfarwydd y dyddiau hyn yw'r hanesion am gau achosion Anghydfurfiol, mae ei ddisgrifiad o raddfa'r dirywiad diweddar yn y rhan hon o Gymru yn gwbl ysgytwol.

Ond ar waethaf diflastod y profiad o ddadgysegru'r capeli hyn, yn groes i'r disgwyl nid yw hyn yn peri loes iddo, gan ei fod yn parhau'n obeithiol wrth wynebu'r dyfodol os llwyddir i fabwysiadu dulliau amgen o drosglwyddo dysgeidiaeth yr Iesu fydd o bosib yn deillio o'r hiraeth sy'n aros yn y cof am yr hyn a fu. Mae'n cydnabod bod newid yn anochel, gan awgrymu bod yr adeiladau wedi cyflawni eu diben erbyn hyn, a hefyd bod gormod o 'sgaffaldie diwinyddol wedi bod yn y gorffennol. *Gormod o ddogmâu a chredoau. Dwi ddim yn credu y byddai Iesu Grist ei hun yn arddel cysyniade fel y Drindod a'r lawn. Fe wnaed niwed i'w ffydd a'i ddysgeidiaeth gyda phethe felly.*

Mae'n bosib mai'r gân mwyaf heriol yn y casgliad yw *Tŷ Cwrdd*, sy'n cyfeirio'n hiraethus at gau drysau capeli am y tro olaf. Ond, yng ngolwg Tecwyn Ifan, nid cân o negyddiaeth mohoni gan ei fod yn credu y dylid defnyddio'r cof nid i hiraethu'n bruddglwyfus am ryw orffennol gwych, ond fel ysbrydoliaeth am ddyfodol newydd llawn gobaieth. Yn hynny o beth mae'n thema sydd i'w gweld mewn llawer o'i ganeuon mwyaf cyfarwydd, megis *Y Dref Wen* a *Gwaed ar yr Eira Gwyn*. Wedi iddo berfformio *Tŷ Cwrdd* mewn capel yn ddiweddar, gofynnodd i'r gynulleidfa rannu eu barn amdani a chyfaddefodd fod yr ymateb yn rhanedig ai taro nodyn o obaith ynte nodyn o anobaith a wnâi. O bosib bod clwyfau rhai o'r ffyddloniaid heb gael amser i wella wedi cau'r drysau, neu fel arall ni allent rannu optimistaeth y canwr. Efallai y cewch gyfle i benderfynu drosoch eich hun os bydd y CD yn yr hosan Nadolig eleni.

Twmiaid
Gweithgareddau
NOSON CALAN
GAEAF
31.10.21
5-6.30

Coffi a Sgwrs
Canolfan y Tabernacl
Bob bore Mawrth
10.30-12.00
Croeso i bawb

CAPEL Y TABERNACL CYF.
CYFARFOD CYFFREDINOL
BLYNYDDOL
Yn syth ar ôl yr oedfa
fore Sul, 28 Tachwedd 2021

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

Cyrsiau'r Hydref

Gweinidogaeth ym mywyd yr eglwys:
Sacrament Swper yr Arglwydd.
Am 7 Nos Fawrth 2 Tachwedd.

Gweinidogaeth ym mywyd yr eglwys:
Gweinidogaeth Galar a Chynnal Angladdau.
Am 7 Nos Fawrth 9 Tachwedd.

ALED JONES

Cyfarwyddwr a Chydlynnydd Hyfforddi'r Coleg.

Bydd pob sgwrs ar-lein eleni.
Manylion pellach a dolenni Zoom gan
aled@colegyrannibynwyr.cymru

Croeso cynnes i bawb

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledanu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / qehpenqern@yahoo.co.uk